

**IONAWR A CHWEFROR 2025**

**YSGOL DYFFRYN DULAS**

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## SESIWN SYLWEBU GYDA MEILIR EMRYS




Prynhawn Dydd Gwener 17eg o Ionawr, daeth Meilir Emrys atom am y prynhawn. Sgwrsiodd Meilir Emrys am yr hyn mae'n ei wneud fel sylwebydd Sgorio a cafodd y dosbarth holi cwestiynau iddo. Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 baratoi eu sylwebaethau eu hunain ac ar ddiwedd y sesiwn cafodd rai o'r disgyblion ddarllen eu sylwebaethau o flaen y dosbarth. Cafodd gweddill y dosbarth fwynhad o'r sesiwn yn llunio cwpwl o frawddegau o sylwebaeth.

## GWEITHDY SBECTRWM

SBECTRWM · SPECTRUM



stori


Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 5 yr ysgol wedi bod yn rhan o Brosiect Sbectrwm ac wedi cael gweithdai ar lein yn ddiweddar. Mae'r disgyblion wedi bod yn cwblhau gweithgareddau sydd yn ymwneud â Perthnasau Iach. Mae'r Prosiect Sbectrwm yn cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru i gynnal sesiynau ar Perthnasau Iach a holl testunau drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru.

**IONAWR A CHWEFROR 2025**

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## PROFIAD GWAITH





Daeth Mari Fychan atom ar brofiad gwaith dechrau mis Ionawr. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ymuno efo ni cyn dychwelyd i Brifysgol Caerdydd ar ôl Gwyliau Nadolig. Roedd disgyblion Dosbarth 3-7 wedi mwynhau cwmni Miss Mari yn fawr, a rydym yn dymuno pob lwc iddi ar gyfer y dyfodol.



## GWERSI NOFIO

Ers cychwyn y tymor, mae blwyddyn 2-6 Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal wedi bod i nofio a sesiynau gymnasteg yn Ganolfan Hamdden Machynlleth pob Dydd Mercher. Rydym wedi mwynhau chwarae gemau a chreu dilyniannau siâp yn ein sesiynau gymnasteg. Rydym wrth ein boddau gyda bore Dydd Mercher wrth i ni gael gweithio ein cyrff yn galed a chael lawer iawn o hwyl wrth wneud!

## DIOGELWCH Y WE

Mae disgyblion Dosbarth 7-11 wedi mynychu dau wasanaeth digidol wedi ei drefnu gan e-sgol a Hwb. Thema Diwrnodau Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel oedd  'Rhy dda i fod yn wir? Diogelu eich hun ac eraill rhag sgamiau ar-lein'. Mae disgyblion y dosbarth wedi gwneud gwaith ar Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, 11eg o Chwefror.



# IONAWR A CHWEFROR 2025

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## TAITH YR IAITH

Dydd Gwener ola mis Ionawr, aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Ysgol Uwchradd Tywyn i weld sioe 'Taith yr Iaith' gyda'r actor enwog Llion Williams. Roedd disgyblion Blwyddyn 6 y dalgylch wedi mwynhau'r perfformiad a dysgu am yr Iaith Gymraeg.



## DYDD MIWSIG CYMRU

Yn ystod Dydd Miwsig Cymru, cynhaliwyd gweithgareddau cerddorol ac adnabod bandiau Cymreig ag ati.



## SESIWN SAMBA A RHYTHM

Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 5 yr ysgol wedi bod yn rhan o Brosiect Sbectrwm ac wedi cael gweithdai ar lein yn ddiweddar. Mae'r disgyblion wedi bod yn cwblhau gweithgareddau sydd yn ymwneud â Perthnasau Iach. Mae'r Prosiect Sbectrwm yn cael ei hariannu gan Llywodraeth Cymru i gynnal sesiynau ar Perthnasau Iach a holl testunau drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru.



# IONAWR A CHWEFROR 2025

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## TROSGLWYDDO UWCHRADD

Yn dilyn llwyddiant y ddau ddiwrnod trosglwyddo hyd yma aeth disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol i ddiwrnod trosglwyddo arall ym mis Chwefror yn Ysgol Bro Hyddgen. Cynhaliwyd Gweithdy Technoleg a TGCh dydd Iau 6ed o Chwefror. Cafodd y disgyblion brofiad cyffrous yn adrannau Technoleg a TGCh Ysgol Bro Hyddgen. Roedd y diwrnod yma yn gyfle gwych i'r disgyblion ymgyfarwyddo â'r ysgol, yr athrawon a disgyblion eraill yr un flwyddyn. Roedd y gweithdy yn cynnwys elfennau gwahanol sef rhaglennu robot i wneud amrywiaeth o wahanol bethau, dylunio wyneb i'r robot ac yn ei gynhyrchu gan ddefnyddio'r torrwr laser a'r peiriant CAMM1 (sticeri)

## GWEITHDY GYDA MANON STEFFAN ROS

Mae Manon Steffan Ros wedi bod yn gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 6 y dalgylch yn ystod mis Chwefror. Daeth Manon Steffan Ros i Ysgol Dyffryn Dulas i gynnal gweithdy ysgrifennu stori gyda disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal.



## DIWRNOD RHIF NSPCC

Roedd hi'n Ddiwrnod Rhif NSPCC ar Ddydd Gwener, 7fed o Chwefror. Cymerodd disgyblion yr ysgol ran yn y diwrnod drwy wisgo dilledyn oedd yn cynnwys rhifau a roedd pawb wedi gwisgo fyny. Yn ystod y dydd, roedd athrawon yr ysgol wedi paratoi amrywiaeth o weithgareddau rhif.



# IONAWR A CHWEFROR 2025

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## PROSIECT TIRWEDD FRANWEN

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn mynd i weithdai yn Ysgol Penybryn gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 y dalgylch. Mae hyn yn rhan o Brosiect ‘Tirwedd’ dan arweiniad Cwmni’r Fran Wen ynghyd ag artistiaid dawns a symud, ac artistiaid celf gweledol. Mae’r Prosiect yma wedi ei drefnu yn dilyn grant llwyddiannus ‘Grant Trochi Hwyr’ i gefnogi dysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae'r gweithdai hyn wedi ei anelu i ddathlu Cymreictod a dwyieithrwydd ein plant.



## GORYMDAITH TIRWEDD



Dydd Gwener olaf cyn hanner tymor, bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn rhan o’r orymdaith i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd yr orymdaith ar hyd promenad Tywyn.
Roedd yr orymdaith yn ddiweddglo i brosiect Tirwedd lle mae'r ysgolion cynradd y dalgylch wedi bod yn cydweithio. Roedd croeso i bawb fod yn rhan o'r orymdaith a gwylio'r gwaith mae'r plant wedi ei baratoi. Cafodd y disgyblion ddisgo a dathliad yn y prynhawn yn dilyn yr Orymdaith.

